

## **Cronfa Bensiwn Gwynedd: Dadfuddsoddi o Danwydd Ffossil (Mehefin 2021)**

Rydym yn **parhau i dderbyn ceisiadau** ynglŷn a gosod amserlen uchelgeisiol tuag at ddad-fuddsoddi yn gyfan gwbl o danwyddau ffossil, ond fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn mae'n fwy cyfrifol i ni gynllunio'n briodol, cymryd camau go wir, a dylanwadu lle'n bosib er lles ein amgylchedd.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr. **Rydym yng Ngwynedd wedi gofyn i'r Scheme Advisory Board (SAB) am eglurder ynglŷn a'r 'dyletswydd ymddiriedol' yma** sy'n llywio penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau. Nid yw'r Gronfa yn dad fuddsoddi am resymau anariannol yn unig, yn anad dim oherwydd gallai hyn arwain at her gyfreithiol.

Buddsoddir asedau'r Gronfa Bensiwn er mwyn darparu enillion ariannol i sicrhau diogelwch ariannol staff a phensiynwyr. Mae dychweliadau hefyd yn lleihau cost i'r cyflogwyr, sydd wedyn yn lleihau'r gost i dalwyr Treth Cyngor, neu yn osgoi torri gwasanaethau lleol. Mae hwn yn gyfrifoldeb cymdeithasol pwysig y mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ymwybodol iawn ohono.

Fodd bynnag, mae rheolwyr a'r Pwyllgor Pensiynau wedi bod yn gweithio ers peth amser i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ein hymgyngorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Rydym wedi gofyn i'n rheolwyr asedau ni ymgysylltu gyda chwmnïau o ran eu cynlluniau ar gyfer dyfodol carbon isel. Drwy hyn, mae'r Gronfa Bensiwn wedi rhoi pwysau ar gwmnïau i gynyddu ymdrechion yn y maes pwysig hwn.

Mae'r Pwyllgor Pensiynau, mewn amryw seminarau a chyfarfodydd, wedi trafod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ('ESG') yn rheolaidd. Yng nghyfarfod Tachwedd 2018, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ddiwygio Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa i nodi ein egwyddorion buddsoddi cyfrifol.

Mae'r Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yma'n amlinellu'r –  
**“angen i ystyried y risgiau penodol sy'n codi o newid yn yr hinsawdd wrth ystyried buddsoddiadau.”**

Mae buddsoddi cyfrifol yn fater sy'n cael sylw ym mhob cyfarfod o'n panel buddsoddi, lle rydym yn trafod gyda chwmnïau sy'n buddsoddi ar ein rhan ni. Mae cynlluniau parhaus ar y gweill gan y cwmnïau buddsoddi yma i wella ei ôl troed carbon ac rydym yn cyd-weithio gyda nhw a'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn gweithredu'r cynlluniau yma. **Dyma** sydd ar y gweill ar y funud:

- Cronfa Carbon Isel Black Rock (12% o Gronfa Gwynedd)- Mae cronfa carbon isel pellach wedi ei ddatblygu sydd yn sgrinio tanwydd ffossil cyn yr optimeiddio carbon isel, ac felly yn lleihau allyriadau carbon ymhellach o 44%. (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 14 Hydref 2020)
- **Cronfa Global Growth (17% o Gronfa Gwynedd) – Mae ymdrechion gan rheolwyr buddsoddi o fewn y gronfa yma i leihau ôl traed carbon.** Mae Baillie

Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dad- fuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil (penderfyniad Pwyllgor Pensiynau, 21 Ionawr 2021) a Pzena wedi penderfynu gwerthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% (ar 31 Rhagfyr 2020) o allyriadau carbon y gronfa penodol yma.

- Cronfa Global Opportunities (17% o Gronfa Gwynedd) –Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gweithredu 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments sy'n lleihau'r ôl-troed carbon o 25%. Bydd posib gweithredu'r un 'overlay' ar ein trosglwyddiad nesaf i gronfa marchnadoedd datblygol PPC (3% o gronfa Gwynedd) yn Hydref 2021.
- Russell Investments (Darparwr Datrysiaid Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru) – wedi datgan eu bod am gyflawni safon o allyriadau carbon net-sero yn eu portffolios buddsoddi yn fyd-eang erbyn 2050.
- Meincnod ESG GRESB – meincnod byd eang ar gyfer ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol o fewn y maes eiddo. Mae gan ein Cronfa ddyraniad 10% i fuddsoddiadau mewn eiddo ac mae'n rheolwyr eiddo, UBS a Black Rock wedi cadw safle rhif 1 a 2 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer eu sgôr 'ESG GRESB' yn 2020.

Yn ogystal â gweithredu'r cynlluniau penodol yma, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn gyfrifol drwy ymgysylltu gyda chwmnïau ac ein rheolwyr asedau. Mae buddsoddi cyfrifol yn bwysig i bob cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac rydym yn gallu cydweithio drwy'r Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF). Nod y LAPFF yw hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i amddiffyn gwerth tymor hir cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol. Mae'r Fforwm yn ymgysylltu'n uniongyrchol â channoedd o gwmnïau, a'u cadeiryddion. Gwneir hyn trwy adeiladu ymddiriedaeth a chael deialog dwy ffordd ynghylch cyfrifoldeb corfforaethol yn y meysydd o stiwardiaeth, risg hinsawdd, risg cymdeithasol a risg llywodraethu. Mewn undeb mae nerth a gan fod y LAPFF yn cydnabod bod **'newid yn yr hinsawdd yn risg buddsoddi sylweddol a brys'** mae'n fforwm ddefnyddiol i sicrhau dylanwad positif.

Gobeithio bydd hyn yn eich argyhoeddi fod Cronfa Pensiwn Gwynedd ddim yn llaesu dwylo ynglŷn a'r agenda newid hinsawdd, ond fod yr ateb yn gorfod bod yn fwy soffistigedig na dad-fuddsoddi yn gyfan gwbl o danwyddau ffosil.



DAFYDD L EDWARDS  
PENNAETH CYLLID

CYNG. PEREDUR JENKINS  
CADEIRYDD Y PWYLLGOR  
PENSIYNAU

CADEIRYDD Y BWRDD  
PENSIWN